Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG
Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

30 Ionawr 2018

Annwyl Dr Goodall

**Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai**

Diolch am eich llythyr ar 3 Ionawr a ystyriwyd yn y Pwyllgor ar 15 Ionawr. Rydym yn croesawu ei fod wedi'i gytuno erbyn hyn y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn gweithio mewn partneriaeth i gaffael a gweithredu Datrysiad TG Maeth ac Arlwyaeth Cenedlaethol (NNCIS). Rydym yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno hyn a nodir yn eich llythyr ac yn eich tystiolaeth lafar flaenorol ar 4 Rhagfyr 2017.

Er ein bod yn cydnabod y dystiolaeth a ddarparwyd gennych eisoes ynglŷn â blaenoriaethu hyn a datblygu systemau TG eraill, rydym yn dal i bryderu'n ddifrifol am yr amser y mae wedi'i gymryd i gyrraedd y cam hwn. Nodwn na fydd y fframwaith ar gael i sefydliadau GIG Cymru tan 2019, sy'n tua saith mlynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru wneud y cais cyntaf am ddatblygu achos busnes amlinellol ar gyfer caffael system genedlaethol.

Mae'r amser hir ar gyfer y broses gaffael fel y nodir yn eich llythyr yn arwain at gwestiynau. Yn benodol, byddem yn croesawu eglurhad o'r cerrig milltir allweddol a'r penderfyniadau sy'n arwain at gadarnhad o fanyleb y system, a fydd wedyn yn galluogi'r broses gaffael i ddechrau. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad o'r weithdrefn gaffael yr ydych yn disgwyl ei dilyn a sut/pam mae hyn yn pennu'r hyn

sy'n ymddangos yn broses wyth i naw mis o leiaf o ddechrau'r broses i ddyfarnu'r fframwaith.

O ran System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), nodwn fod yr Adolygiad Gateway wedi rhoi Asesiad Hyder Cyflenwi Oren a bod cynlluniau ar waith i sicrhau bod y camau allweddol a argymhellir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu'n brydlon.  Fodd bynnag, hoffem gael rhagor o fanylion am y camau allweddol sy'n deillio o'r adolygiad, y gwersi a ddysgwyd, sut y gweithredir y camau hyn a'r amserlenni ar gyfer eu cyflwyno.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd unrhyw sesiynau tystiolaeth yn y dyfodol sy'n edrych ar systemau gwybodeg yn GIG Cymru – yn dilyn cyhoeddi adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol – yn rhoi cyfle pellach i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflwyno'r systemau hyn a systemau eraill a blaenoriaethu gweithgareddau'n gyffredinol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**